




**YSGOLION YR 21<sup>AIN</sup> GANRIF**



**ADRODDIAD YMGYNGHORI**

**YMGYNGHORIAD AR Y CYNNIG I GAU'R CHWECHED DOSBARTH YN YSGOL GYFUN ABERPENNAR A THROSGWLWYDDO DISGYBLION I YSGOL GYMUNEDOL ABERDÂR.**

Mae'r Adroddiad Ymgynghori a'r Atodiadau hefyd ar gael ar dudalen 'Dod yn rhan o bethau' ar wefan y Cyngor

| <b>Tabl Cynnwys</b> |  |                |
|---------------------|--|----------------|
| <b>Cynnwys</b>      |  | <b>Tudalen</b> |
| 1.                  | Cynnig   | 2              |
| 2.                  | Nod yr Adroddiad Ymgynghori  | 2              |
| 3.                  | Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori?  | 2              |
| 4.                  | Y Broses Ymgynghori  | 4              |
| 5.                  | Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad  | 5              |
| 6.                  | Ymateb Estyn   | 21             |
| 7.                  | Aseiad o'r Ymgynghoriad  | 25             |
| 8.                  | Casgliad   | 25             |
| <b>Atodiadau</b>    |  |                |
| 1A.                 | Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gyfun Aberpennar  |                |
| 1B.                 | Cofnodion Cyfarfod gyda Chorff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gymunedol Aberdâr |                |
| 2A.                 | Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gyfun Aberpennar                                 |                |
| 2B.                 | Cofnodion Cyfarfod gyda Chyngor Ysgol Gymunedol Aberdâr                                |                |
| 3.                  | Ymateb Estyn   |                |
| 4.                  | Adborth gan Y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant                                  |                |

## **1. Cynnig**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn dymuno ceisio barn rhanddeiliaid ar y cynnig i gau chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar a diwygio'r dalgylch ar gyfer addysg ôl-16 i osod Ysgol Gyfun Aberpennar yn nalgylch Ysgol Gymunedol Aberdâr.

Cynigir bod y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cau erbyn mis Medi 2026 fan bellaf. Er mwyn galluogi cau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar erbyn y dyddiad yma, fydd dim disgyblion blwyddyn 12 newydd yn cael eu derbyn i'r chweched dosbarth ym mis Medi 2025.

Caiff y broses ymgynghori ei wneud yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Mae Adran 2.3 o God Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) yn cyfeirio at elfennau o drefniadaeth ysgolion sy'n gofyn am gyhoeddi cynigion, gan gynnwys:

- Newidiadau a reoleiddir i ysgolion cymunedol, ysgolion sefydledig, ysgolion gwirfoddol ac ysgolion arbennig cymunedol:
  - Cyflwyno, neu derfynu, addysg chweched dosbarth mewn ysgol.

Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Aseidiadau Effaith a gafodd eu dosbarthu i'r holl rhanddeiliaid. Mae'r ddolen i'r dogfennau yma isod:

[Cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf](#)

## **2. Nod yr Adroddiad Ymgynghori**

Caiff yr Adroddiad Ymgynghori yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018 Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018). Ei nod yw hysbysu rhanddeiliaid am ddeilliant yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal rhwng 2 Rhagfyr 2024 a 17:00 17 Ionawr 2025.

## **3. Gyda phwy rydyn ni wedi ymgynghori?**

- Cyrff Llywodraethu:
  - Ysgol Gymunedol Aberdâr.
  - Ysgol Gyfun Aberpennar.
  - Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru
  - Ysgol Gynradd Gymuned Abercynon
  - Ysgol Gynradd Parc Aberdâr
  - Ysgol Gynradd Abernant
  - Ysgol Gynradd Blaengwawr
  - Ysgol Gynradd Caegarw
  - Ysgol Gynradd Cap-coch
  - Ysgol Gynradd Caradog
  - Ysgol Gynradd Cwmaman
  - Ysgol Gynradd Cwm-bach
  - Ysgol Gynradd Cwmdâr
  - Ysgol Gynradd y Darren-las
  - Ysgol Gynradd Gymuned Glenbói

- Ysgol Gynradd Hirwaun
- Ysgol Gynradd Llwydcoed
- Ysgol Gynradd Meisgyn
- Ysgol Gynradd Oaklands
- Ysgol Gynradd Pengeulan
- Ysgol Gynradd Penrhiw-ceiber
- Ysgol Gynradd Pen-y-waun
- Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn
- Ysgol Gynradd Ynys-boeth
- Rhieni/gwarcheidwaid, darpar rieni/warcheidwaid (lle bo modd), ac aelodau staff:
  - Ysgol Gymunedol Aberdâr.
  - Ysgol Gyfun Aberpennar.
  - Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru
  - Ysgol Gynradd Gymuned Abercynon
  - Ysgol Gynradd Parc Aberdâr
  - Ysgol Gynradd Abernant
  - Ysgol Gynradd Blaengwawr
  - Ysgol Gynradd Caegarw
  - Ysgol Gynradd Cap-coch
  - Ysgol Gynradd Caradog
  - Ysgol Gynradd Cwmaman
  - Ysgol Gynradd Cwm-bach
  - Ysgol Gynradd Cwmdâr
  - Ysgol Gynradd y Darren-las
  - Ysgol Gynradd Gymuned Glenbói
  - Ysgol Gynradd Hirwaun
  - Ysgol Gynradd Llwydcoed
  - Ysgol Gynradd Meisgyn
  - Ysgol Gynradd Oaklands
  - Ysgol Gynradd Pengeulan
  - Ysgol Gynradd Penrhiw-ceiber
  - Ysgol Gynradd Pen-y-waun
  - Ysgol Gynradd Gymuned Perthcelyn
  - Ysgol Gynradd Ynys-boeth
- Disgyblion:
  - Ysgol Gymunedol Aberdâr
  - Ysgol Gyfun Aberpennar
- Cynghorau Cyfagos
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Gweinidogion Cymru
- Aelodau'r Senedd ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái ac Aelodau rhanbarthol o'r Senedd ar gyfer yr ardal
- Aelodau Seneddol ar gyfer etholaethau Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái
- Estyn
- Undebau llafur athrawon a staff
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd – Consortiwm Canolbarth y De
- Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer yr ardal
- Menter Iaith
- Partneriaeth Datblygu Addysg y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant

- Partneriaeth Plant a Phobl Ifainc
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Comisiynydd y Gymraeg
- Coleg y Cymoedd

#### 4. Y Broses Ymgynghori

Cafodd dolen at gopiâu electronig o'r Ddogfen Ymgynghori a'r Asesiadau Effaith ei hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn Adran 3. Daeth copiâu papur i law pob un a wnaeth gais am un. Mae'r tabl sy'n dilyn hefyd yn amlinellu'r cyfarfodydd a gafodd eu cynnull gyda Chyrff Llywodraethu, Aelodau o Staff a Chynghorau Ysgol y ddwy ysgol.

| <b>Lleisio'ch barn</b>                            |                                       |                                  |                         |
|---|---------------------------------------|----------------------------------|-------------------------|
| <b>Ysgolion fydd yn cael eu heffeithio</b>        | <b>Cyfadran</b>                       | <b>Amser/Dyddiad</b>             | <b>Lleoliad</b>         |
| <b>Cyngor Ysgol</b>                               |                                       |                                  |                         |
| Ysgol Gyfun Aberpennar                            | Cyngor Ysgol                          | 8 Ionawr 2025<br>13:30           | Ysgol Gyfun Aberpennar  |
| Ysgol Gymunedol Aberdâr                           | Cyngor Ysgol                          | 8 Ionawr 2025<br>13:30           | Ysgol Gymunedol Aberdâr |
| <b>Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff</b>      |                                       |                                  |                         |
| Ysgol Gyfun Aberpennar                            | Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff | 11 Rhagfyr 2024<br>15:45         | Ysgol Gyfun Aberpennar  |
| Ysgol Gymunedol Aberdâr                           | Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff | 11 Rhagfyr 2024<br>15:45         | Ysgol Gymunedol Aberdâr |
| <b>Sesiwn galw heibio i'r cyhoedd</b>             |                                       |                                  |                         |
| Rhieni/gwarcheidwaid ac aelodau o'r gymuned leol. |                                       | 8 Ionawr 2025<br>15:30 tan 17:30 | Ysgol Gyfun Aberpennar  |
|   |                                       | 8 Ionawr 2025<br>15:30 tan 17:30 | Ysgol Gymunedol Aberdâr |

Cafodd yr holl gyfarfodydd ar gyfer Cyrff Llywodraethu ac Aelodau o Staff sydd wedi'u hamlinellu yn y tabl blaenorol eu cynnal wyneb yn wyneb.

Mae nodiadau o'r cyfarfodydd gyda'r Corff Llywodraethu ac aelodau o staff y ddwy ysgol ynghlwm yn Atodiad 1A ac 1B. Maen nhw'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd ynghyd â'r ymatebion a gafodd eu darparu lle'r oedd hynny'n briodol.

Cymerwyd nodiadau o'r cyfarfodydd gyda Chynghorau Ysgol y ddwy ysgol ac maen nhw ynghlwm yn Atodiad 2A a 2B. Maen nhw'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed yn ystod y cyfarfodydd ynghyd â'r ymatebion a gafodd eu darparu lle'r oedd hynny'n briodol.

Cafodd dwy sesiwn galw heibio eu trefnu hefyd er mwyn i aelodau o'r cyhoedd drafod y cynnig gyda Swyddogion o Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor a rhoi unrhyw adborth yn y sesiwn. Cynhaliwyd y sesiynau wyneb yn wyneb yn y ddwy ysgol. Yn y sesiynau galw heibio yma, gofynnwyd i bawb gofnodi i mewn er mwyn

cofnodi'r lefel bresenoldeb. Mae'r gofrestr presenoldeb yn nodi bod 13 o bobl wedi llofnodi i mewn yn Ysgol Gyfun Aberpennar a dau o bobl wedi llofnodi i mewn yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Gofynnwyd i'r sawl a oedd yn bresennol gwblhau Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad a'i chyflwyno. Gwnaethpwyd cofnod o'r sylwadau llafar a wnaed ym mhob sesiwn galw heibio cyhoeddus ac mae wedi'i gynnwys o fewn themâu'r Adroddiad Ymgynghori yma.

## 5. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau a godwyd yng nghyfarfodydd y Corff Llywodraethu a'r cyfarfodydd aelodau o staff a Chyngor Ysgol wedi'u crynhoi yng nghofnodion cyfarfodydd sydd wedi'u hatodi yn Atodiad 1A, 1B, 2B a 2A a 2B.

Cafodd gyfanswm o 248 o ymatebion eu cyflwyno. Cafodd un ymateb ei gyflwyno'n ysgrifenedig a chafodd 247 eu cyflwyno trwy'r arolwg ar-lein. O'r ymatebion a dderbyniwyd, roedd 6.9% yn cytuno â'r cynnig, 87.9% yn anghytuno â'r cynnig a 5.2% ddim yn siŵr am y cynnig. Mae hyn wedi'i grynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

| <b>Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad</b> |             |              |
|--|-------------|--------------|
| <b>Penderfyniad</b>                            | <b>Rhif</b> | <b>%</b>     |
| Cytuno   | 17          | 6.9%         |
| Anghytuno                                      | 218         | 87.9%        |
| Ddim yn siŵr                                   | 13          | 5.2%         |
| <b>Cyfanswm</b>                                | <b>248</b>  | <b>100.0</b> |

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (Ail Argraffiad) (011/2018), ceir crynodeb o'r ymatebion ysgrifenedig a gafwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad yn y tabl sy'n dilyn, ynghyd ag eglurhad (lle bo angen).

**I gadarnhau, mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'u darparu a'u hadolygu gan Aelodau Cabinet y Cyngor.**

| <b>Crynodeb o'r Ymatebion Ysgrifenedig</b> |  |   |
|--|--|---|
| 1.   | <p><b>Cau pob chweched dosbarth ac agor canolfan chweched dosbarth.</b></p> <p><i>“Os ydych chi'n cau un chweched dosbarth, caewch nhw i gyd.”</i></p> | <p>Roedd hwn yn opsiwn a ystyriwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, ac mae'r rheswm y cafodd yr opsiwn yma ei ddiystyru wedi'i gynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori.</p> <p>Caiff y broses ymgynghori yma ei wneud yn unol â <u>Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018)</u>.</p> <p>Mae'r rhesymau dros ystyried y cynnig penodol yma wedi'u hamlinellu'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Aseidiadau Effaith a gafodd eu rhannu â'r holl randdeiliaid. Mae'r ddolen i'r dogfennau yma isod:</p> |

|    |  |  |
|----|--|--|
|    |  | <p><u>Cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo ddisgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr   Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf</u></p>   |
| 2. | <p><b>Gallai cau'r chweched dosbarth gael effaith andwyol ar y niferoedd o ddisgyblion blwyddyn saith a hŷn a gaiff eu derbyn yn Ysgol Gyfun Aberpennar.</b></p> <p><i>“Pe bawn i'n rhiant a fy mod eisiau i'm plentyn aros yn y chweched dosbarth, fyddwn i ddim yn eu hanfon i [Ysgol Gyfun Aberpennar] ym mlwyddyn saith.”</i></p> <p><i>“Rydw i'n credu y bydd y bwriad i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn cael effaith andwyol ar y niferoedd o ddisgyblion blwyddyn saith a hŷn a gaiff eu derbyn yn y dyfodol.”</i></p> <p><i>“O ganlyniad i'r cynnig yma a oes syniad faint o ddisgyblion fyddai'n trosglwyddo i ysgolion eraill yn Rhondda Cynon Taf neu'n mynd i coleg?”</i></p> | <p>Does dim tystiolaeth i awgrymu mai felly y bydd hi. Nid yw ymgynghoriadau diweddar i ddileu darpariaethau chweched dosbarth a gynhaliwyd yn Rhondda Cynon Taf wedi effeithio ar niferoedd disgyblion yn yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arny'n nhw.</p> <p>Dewis y rhiant/gwarcheidwad yw ysgol y plentyn. Byddwn ni'n ymdrin â cheisiadau yn unol â <u>Chod Derbyn i Ysgolion 2013 (005/2013)</u> Llywodraeth Cymru.</p> <p>Nid oes unrhyw fodelu wedi'i wneud gan ei bod yn anodd mesur pa ddisgyblion fydd yn dewis parhau â'u haddysg yn y coleg neu yn un o'r ysgolion sy'n cynnig darpariaeth chweched dosbarth yn Rhondda Cynon Taf. Mae cyfraddau cadw ôl-16 mewn ysgolion wedi gostwng ledled Rhondda Cynon Taf wrth i ddisgyblion arfer eu hawl i barhau â'u haddysg bellach trwy ddewis opsiwn astudio naill ai mewn coleg neu ysgol sy'n eu galluogi i ddewis ehangder llawer mwy amrywiol o gwricwlwm ac opsiynau astudio sy'n eu cefnogi yn eu dewis o astudiaethau yn y dyfodol neu'n eu cynorthwyo'n llwyddiannus i gyflogaeth. I rai, mae Coleg yn ddewis mwy deniadol neu briodol, tra bod eraill yn dewis mynd i gyflogaeth.</p> |
| 3. | <p><b>Gallai cau'r chweched dosbarth gael effaith andwyol ar gyflawniad disgyblion.</b></p> <p><i>“Bydd cau'r chweched dosbarth yn cael effaith andwyol ar gyflawniad disgyblion yn yr ardal.”</i></p>   | <p>Yn ddealladwy, mae'n bosibl y bydd rhai disgyblion yn teimlo'n ofnus ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo i ysgol newydd. Serch hynny, mae'n werth nodi bod 75.0% o ddisgyblion eisoes yn cael mynediad at ddarpariaeth ar draws o leiaf dau safle ysgol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai cymorth wedi'i dargedu ar gyfer holl ddisgyblion chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Bydd pecyn cymorth newydd wedi'i anelu at ddisgyblion blwyddyn 12, a elwir yn</p>  |

|    |  |   |
|----|--|---|
|    |  | <p>EVALUATE, yn canolbwyntio i ddechrau ar ddisgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr. Bydd hyn yn cynnwys gwell Cyngor ac Arweiniad ar Yrfaeodd, mentora a gofal bugeiliol wedi'i fonitro'n ofalus.</p> <p>Mae proses bontio cadarnhaol ac ystyrion yn rhan allweddol o sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu hysgol newydd heb darfu ar eu lles a'u haddysg. Caiff hyn ei gefnogi trwy ddarparu cymorth academaidd a bugeiliol effeithiol a chyfleoedd strwythuredig er mwyn i ddisgyblion ymgylchedd ag amgylchedd newydd yr ysgol ac aelodau o staff. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gall cydweithio gwell ar draws holl feysydd y cwricwlwm rhwng y ddwy ysgol ddechrau datblygu o flwyddyn saith ymlaen, gan ganiatáu i'r ddwy ysgol feithrin agwedd golegol ac ymdeimlad o berthyn ar draws y ddwy gymuned ysgol.</p> <p>Rydyn ni'n rhagweld na fydd y newidiadau arfaethedig yn cael effaith andwyol hirdymor a dylid nodi ar yr adeg yma yn y broses ymgynghori statudol bod y Cyngor yn ystyried bod effaith gyffredinol y cynnig yn gadarnhaol.</p> <p>Fel y nodwyd uchod, roedd Estyn yn ystyried bod y bwriad yn debygol o wella safon y ddarpariaeth ôl-16 yn yr ardal.</p> |
| 4. | <p><b>Gallai cau'r chweched dosbarth gael effaith andwyol ar lefelau staffio.</b></p> <p><i>“Bydd hyn yn cael [effaith] ar [y] staff presennol y gallai eu swyddi gael eu heffeithio neu hyd yn oed eu colli yn sgil colli profiad addysgu gwerthfawr.”</i></p> <p><i>“Ni fydd unrhyw athro ag uchelgais eisiau addysgu mewn ysgol heb [chweched dosbarth].”</i></p> | <p>Nid yw'r cymwysterau i addysgu chweched dosbarth yn wahanol i rai cyfnodau allweddol is a grwpiau blwyddyn, ac mae modd defnyddio staff a ddefnyddir i addysgu chweched dosbarth hefyd yn is i lawr yr ysgol lle bo angen. Cydnabyddir bod gan rai staff angerdd am addysgu yn y chweched dosbarth ac efallai y byddan nhw'n penderfynu chwilio am gyfleoedd rywle arall.</p> <p>Mae gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i aelodau o staff a</p>   |



|    |   |  |
|----|---|--|
|    |   | <p>chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.</p> <p>Mynychodd swyddogion AD y ddau gyfarfod a gynhaliwyd gydag aelodau o staff a llywodraethwyr o'r ddwy ysgol, a bydd cymorth ar gael i'r holl staff sydd ei angen i ystyried eu hopsiynau.</p>   |
| 5. | <p><b>Gallai fod goblygiadau cost i brynu gwisg ysgol newydd.</b></p> <p><i>“Bydd prynu'r wisg... yn cymryd amser dysgu da i ffwrdd.”</i></p> <p><i>“Bydd yn rhaid gwario arian i brynu gwisg newydd.”</i></p> <p><i>“Mae gwisg ysgol yn rhan enfawr o ysgol, ac rydyn ni'n falch o'n un ni ac yn awr yn cael ein gofyn i newid. Nid yw hynny'n rhad mae'n cymryd arian a balchder oddi wrth bobl, fyddwn i ddim yn hapus bod mewn gwisg rhywun arall. .”</i></p>               | <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai goblygiadau cost yn gysylltiedig â disgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr, gan gynnwys cost prynu gwisg ysgol newydd. Serch hynny, mae gwisg chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar yn wahanol i'r wisg ar gyfer disgyblion ym mlynnyddoedd 7 i 11, felly pe bai disgyblion yn dewis parhau ag addysg ôl-16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar, byddai angen gwisg ysgol newydd beth bynnag fo canlyniad y cynnig yma.</p> <p>I nodi, mae Ysgol Gymunedol Aberdâr yn hwyluso gwasanaeth cyfnewid gwisg ysgol, lle mae modd i'r rheiny sydd angen gael gafael ar wisg ysgol ail-law o ansawdd da wneud hynny.</p> |
| 6. | <p><b>Gallai arwain at oblygiadau cludiant o'r cartref i'r ysgol.</b></p> <p><i>“I bobl sy'n byw o gwmpas yr ardal yma, byddai'n annheg iddyn nhw orfod cymryd bws neu drên bob dydd dim ond i fynd i'r ysgol.”</i></p> <p><i>“Byddai teithio i unrhyw leoliad arall ar gyfer fy merch yn amhosibl. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn wael ac mae'r ffaith y byddai angen iddi deithio ar drafndiaeth gyhoeddus i fynychu yn ei hatal rhag cael mynediad at addysg bellach.”</i></p> | <p>Mae gwybodaeth am ddarpariaeth Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'n debygol iawn bydd gan yr holl ddisgyblion chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar <b>hawl</b> i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu addysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr.</p>   |
| 7. | <p><b>Sut bydd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael eu cefnogi?</b></p> <p><i>“Mae cael plentyn sydd bellach ym mlwyddyn saith sydd eisiau aros ymlaen</i></p>  | <p>Bydd pob disgybl ag ADY yn parhau i dderbyn cymorth. Mae <u><a href="#">Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018</a></u> yn darparu canllawiau manwl ar ddyletswyddau a chyfrifoldebau</p>   |

|                  |  |   |
|------------------|--|---|
|                  | <p><i>[yn y chweched dosbarth] ac ychwanegu ei [ADY]...bydd hyn yn rhoi straen arno."</i></p> <p><i>"Dylai disgyblion gael dewis pa chweched dosbarth y maen nhw'n ei fynychu...yn enwedig...disgyblion ag ADY. Maen nhw wedi treulio pum mlynedd mewn ysgol, lle maen nhw wedi arfer â'r aelodau o staff, y drefn, yr adeilad a'r ardal gyfagos a nawr rydych chi eisiau newid y chweched dosbarth yn llwyr."</i></p>   | <p>Cynghorau wrth ddiwallu ADY plant a phobl ifanc.</p> <p>Mae <u>Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru (2021)</u> yn argymhell bod lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion yn mabwysiadu ymateb graddedig i ddiwallu ADY plant a phobl ifanc. Mae ymateb graddedig yn golygu bod modd cyflwyno rhagor o arbenigedd a rhagor o gymorth er mwyn mynd i'r afael ag anawsterau y mae plentyn neu unigolyn ifanc yn eu hwynebu. Dylid gwneud darpariaeth ychwanegol neu wahanol gan ddibynnu ar ddifrifoldeb lefel angen y plentyn / person ifanc.</p> <p>Byddwn ni'n cyflawni'r ddyletswydd a'r cyfrifoldeb yma ni waeth pa ysgol mae'r plentyn/person ifanc yn ei mynychu.</p>   |
| <p><b>8.</b></p> | <p><b>Effaith ar ddisgyblion.</b></p> <p><i>"Y grŵp blwyddyn y mae hyn yn effeithio arno yw'r union grŵp blwyddyn a gafodd ei effeithio yn ystod COVID-19! Ni chawson nhw broses bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'r effaith dreigl y mae hyn wedi'i chael ar eu haddysg yn enfawr. Mae wedi cymryd blynyddoedd iddyn nhw ymgartrefu a dod yn ôl ar y trywydd iawn o ran ble y dylen nhw fod ar gyfer eu hoedran...mae'n annheg, ac nid yw er lles gorau'r plant."</i></p> <p><i>"Rydw i'n meddwl bod tynnu plant allan o'r amgylchedd y maen nhw wedi arfer ag ef ac eisiau aros ynddo ar un o'r adegau mwyaf pwysig a dirdynnol y maen nhw wedi'u profi yn warthus."</i></p> <p><i>Mae'r pontio ar gyfer disgyblion presennol yn mynd i gael effaith aruthrol ar eu dysgu...gorfod dysgu enwau newydd, ffurfio perthnasoedd newydd ag athrawon newydd, ffurfio perthnasoedd newydd gyda disgyblion [ac ati]."</i></p> <p><i>"Mae gan ddisgyblion yr hawl i gael eu haddysgu yn eu hysgol eu hunain...bydd</i></p> | <p>Mae lles pob disgybl yn bwysig iawn i'r Cyngor. Rydyn ni'n cydnabod efallai y bydd rhai disgyblion yn ei chael hi'n anodd ymdopi â'r newidiadau yn fwy nag eraill.</p> <p>Mae trawsnewidiadau bywyd yn nodweddion arwyddocaol ym mywydau pob person ifanc. Bydd pob disgybl sy'n derbyn addysg yn profi llawer o gyfnodau o newid ac addasu, ac mae llawer o ddisgyblion eisoes yn cael mynediad at eu haddysg ar draws mwy nag un safle ysgol ac wedi addasu'n dda i hyn. Gellid dadlau y bydd derbyn addysg ar un safle ysgol yn dod â mwy o sefydlogrwydd i ddisgyblion a pharhad mewn addysgu a dysgu, a pherthnasoedd cymdeithasol gydag aelodau o staff a chyfoedion yn ystod eu hastudiaethau ôl-16.</p> <p>Cydnabyddir y bydd angen cymorth emosiynol ychwanegol ar rai disgyblion, gan dderbyn amgylchedd ysgol newydd ac anogaeth i wneud ffrindiau a pherthnasoedd newydd ac i fod yn rhan o rwydwaith cymdeithasol newydd.</p> |

|     |  |   |
|-----|--|---|
|     | <p><i>cau'r chweched dosbarth yn cael effaith andwyol ar ddisgyblion."</i></p> <p><i>"Rwy'n meddwl y dylai'r opsiwn i ddisgyblion barhau â'u haddysg yn yr ysgol y maen nhw wedi ei mynychu o flwyddyn saith aros. Mae'n newid mawr gorfod teithio i Aberdâr yn ddyddiol ar gyfer chweched dosbarth neu goleg ac nid yw rhai plant yn barod am hynny ar ddiwedd blwyddyn 11."</i></p>  | <p>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ddwy ysgol i gefnogi'r broses o sicrhau pontio effeithiol. Bydd y trefniadau pontio sy'n cael eu darparu yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i helpu disgyblion i lywio'r newidiadau ac ymgartrefu yn yr ysgol newydd mor gyflym â phosibl.</p> <p>Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig wedi'i lunio yn unol â gofynion <u>Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018)</u>. Mae'r Cyngor yn ystyried buddion y cynnig i blant a phobl ifainc yn unol â'r saith prif amcan sydd wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant.</p>   |
| 9.  | <p><b>A oes lle yn Ysgol Gymunedol Aberdâr ar gyfer holl ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar?</b></p> <p><i>"Mae [Ysgol Gymunedol Aberdâr] eisoes yn orlawn o ddisgyblion felly bydd ychwanegu mwy yn ychwanegu straen ychwanegol at amgylchedd sydd eisoes yn llawn straen ac yn orlawn."</i></p> <p><i>"Mae yna eisoes gormod o ddisgyblion yn Ysgol Gymunedol Aberdâr."</i></p> <p><i>"Rwy'n pryderu am y materion sy'n ymwneud â lle, offer, a chyllid ar gyfer Ysgol Gymunedol Aberdâr."</i></p> | <p>Fel yr amlinellwyd yn y Ddogfen Ymgynghori, mae digon o le yn Ysgol Gymunedol Aberdâr i ddarparu ar gyfer holl ddarpar ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar. Capasiti presennol Ysgol Gymunedol Aberdâr yw 1,574 ac mae 1,238 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd. Felly, mae digon o le i ddarparu ar gyfer twf mewn niferoedd.</p> <p>Mae ysgolion yn derbyn cyllid ôl-16 yn seiliedig ar nifer y disgyblion ôl-16 sydd ar y gofrestr. Os bydd gan Ysgol Gymunedol Aberdâr fwy o ddisgyblion chweched dosbarth, bydd ei chyllid yn cynyddu, a bydd gyda hi ragor o arian i'w wario ar ddarpariaeth ôl-16 a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer pob disgybl.</p> |
| 10. | <p><b>Effaith ar y Gymuned</b></p> <p><i>"Beth mae'r Cyngor yn ei ystyried fydd yr effaith ar Ysgol Gymunedol Aberdâr?"</i></p>  | <p>Bydd yr effaith ar Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y disgyblion, a fydd yn ei dro yn cynyddu'r cyllid a dderbynnir ar gyfer addysg ôl-16. Gydag adnoddau ychwanegol, bydd modd i'r ysgol gynllunio darpariaeth ôl-16 fwy cost effeithiol ac ariannol hyfyw a fydd yn cyfoethogi'r cwricwlwm a'r cynnig galwedigaethol. Oherwydd cynnydd yn nifer y disgyblion, bydd hyn yn effeithio ar sefydlogrwydd ariannol yr ysgol, mwy o</p>  |

|                   |   |   |
|-------------------|---|---|
|                   |   | <p>ddewis cwricwlwm ac ymgysylltiad gan ddisgyblion gan arwain at ddeilliannau gwell i ddisgyblion.</p> <p>Mae'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn ddogfen fyw a chaiff ei diweddarau i adlewyrchu'r wybodaeth yma'n benodol.</p>   |
| <p><b>11.</b></p> | <p><b>Gall olygu na fydd rhai disgyblion yn parhau â'u haddysg ôl-16.</b></p> <p><i>“Rwy'n credu y bydd y posibilrwydd o newid ysgolion yn ddigon i atal rhai disgyblion blwyddyn 11 rhag parhau â'u haddysg. Os bydd hyd yn oed un disgybl [Ysgol Gyfun Aberpennar] yn penderfynu peidio â pharhau i'r chweched dosbarth yn gyfan gwbl o ganlyniad i'r cynnig yma, yna byddai'n arwydd o fethiant enfawr yn y system addysg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.”</i></p> <p><i>“Mae plant [Ysgol Gyfun] Aberpennar yn haeddu'r cyfle i fynychu chweched dosbarth yn eu hardal. Bydd hyn yn atal llawer o blant rhag parhau â'u haddysg os yw'n golygu teithio i Aberdâr bob dydd. Mae plant [Ysgol Gyfun] Aberpennar yn haeddu gwell.”</i></p> <p><b>Gall disgyblion benderfynu mynd yn syth i goleg neu ysgol arall i barhau â'u haddysg ôl-16.</b></p> <p><i>“Rwy'n ... meddwl y bydd y darpar ddisgyblion chweched dosbarth yma'n penderfynu mynd yn syth i'r coleg neu ystyried [Ysgol Gyfun] Bryncelynnog yn lle [Ysgol Gymunedol Aberdâr] ar gyfer derbyn eu haddysg chweched dosbarth.”</i></p> | <p>Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn amlinellu bod canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar dros y deng mlynedd diwethaf wedi mwy na haneru o 60.9% yn 2014/2015 i 29.7% yn 2023/24 tra bod canran disgyblion blwyddyn 11 sy'n dychwelyd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr ers agor yr ysgol wedi gostwng yn sylweddol o 58.4% yn 2015/2016 i 30.6% yn 2023/2024. Mae hyn yn golygu bod mwyafrif y disgyblion eisoes yn dewis dilyn llwybrau amgen i aros yn yr ysgol i barhau ag addysg ôl-16.</p> <p>O dan trefniadau presennol Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon, mae rhai disgyblion ôl-16 yn cael mynediad at eu haddysg ar draws tri safle ysgol sy'n effeithio ar amser astudio gwerthfawr. Mae'n bosibl y gallai'r teithio helaeth sydd ynghlwm wrth gael mynediad at gyrsiau ôl-16 mewn mwy nag un safle ysgol fod yn rhwystr i ddisgyblion rhag symud ymlaen i addysg ôl-16 yn yr ysgol, gan gael effaith andwyol ar gadw disgyblion a symud ymlaen i Addysg Bellach ac Uwch.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai trosglwyddo disgyblion chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr yn creu chweched dosbarth mwy a fyddai â mwy o botensial ar gyfer arbedion maint ac arbedion effeithlonrwydd ariannol a all gronni a chael eu hail-fuddsoddi er budd yr holl ddisgyblion. Mae dosbarthiadau chweched dosbarth mwy o faint hefyd yn galluogi darpariaeth addysg ôl-16 eang a chytbwys i ddisgyblion sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol yn well ac</p> |

|     |  |  |
|-----|--|--|
|     |  | felly byddai modd i hyn wella deilliannau disgyblion.  |
| 12. | <p><b>Mae Ysgol Gyfun Aberpennar yn cynnig rhai pynciau ôl-16 nad yw Ysgol Gymunedol Aberdâr yn eu cynnig, a fydd y pynciau yma'n trosglwyddo?</b></p> <p><i>“Nid yw llawer o bynciau poblogaidd fel seicoleg ar gael yn [Ysgol Gymunedol Aberdâr] tra eu bod ar gael yn [Ysgol Gyfun] Aberpennar.”</i></p> <p><i>Ar hyn o bryd rwy'n addysgu peirianeg lefel 3 [yn Ysgol Gyfun Aberpennar]... nid oes gan [Ysgol Gymunedol Aberdâr] yr offer na'r aelodau o staff sydd â'r sgiliau a'r cymwysterau priodol i gyflwyno'r pwnc yma.”</i></p>                            | <p>Dim ond un cwrs a gaiff ei gynnig yn Ysgol Gyfun Aberpennar ar hyn o bryd nad yw'n cael ei gynnig gan ysgolion eraill Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon ar hyn o bryd. Pe bai'r cynnig yma'n mynd rhagddo, a phe bai galw am y cwrs yma yn y dyfodol, yna cynigir cefnogaeth i'r ysgolion yn y consortiwm i ddarparu'r cwrs yma i sicrhau nad oes effaith andwyol ar y dewisiadau sydd ar gael i ddisgyblion. Mae ysgolion yn adolygu ac yn diwygio eu cynnig ôl-16 yn rheolaidd i fodloni angen a galw.</p> <p>Os oes angen cwrs penodol, yna fe allai trefniant posib i gydweithio a rhannu staff o dan drefniant secondiad fod yn opsiwn sy'n cael ei archwilio. Bydd hyn i gyd yn dibynnu ar yr hyn y mae'r disgyblion ei eisiau a'r trefniadau staffio presennol. Bydd pennu ffyrdd creadigol yn cael eu cefnogi lle bo'n briodol ond hyd nes y bydd gyda ni niferoedd disgyblion terfynol mae'n anodd rhagweld y galw posibl am rai pynciau. Mater i arweinwyr ysgolion yw penderfynu ar y cwricwlwm a gynigir yn eu hysgolion ar sail y galw am rai pynciau. Serch hynny, bydd cynnydd yn niferoedd disgyblion a chyllid yn dylanwadu ar allu ysgol i ddarparu cynnig cwricwlwm eang.</p> |
| 13. | <p><b>Mae rhieni/gwarcheidwaid disgyblion wedi datblygu perthynas gydag aelodau o staff Ysgol Gyfun Aberpennar a byddai'n rhaid datblygu'r rhain o'r dechrau gydag aelodau o staff Ysgol Gymunedol Aberdâr.</b></p> <p><i>“Mae'r [chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar] yn rhan allweddol o'r profiad o fynychu'r ysgol, gan gynnal perthynas ag athrawon sydd wedi bod yn mynychu'r ysgol ers nifer o flynyddoedd.”</i></p> <p><i>“Mae'r plant wedi treulio pum mlynedd [yn Ysgol Gyfun Aberpennar] yn dod i adnabod yr aelodau o staff a'r cyffiniau.</i></p> | <p>Drwy gydol y broses ymgynghori, mae sylwadau a dderbyniwyd gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Aberpennar wedi bod yn ganmoliaethus iawn ac yn hynod gadarnhaol am y gefnogaeth a'r arweiniad a gaiff ei gynnig gan staff yr ysgol. Serch hynny, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydden ni'n gobeithio y byddai'r perthnasoedd cadarnhaol hynny'n cael eu meithrin ac yn parhau i gael eu datblygu rhwng disgyblion ac aelodau o staff Ysgol Gymunedol Aberdâr.</p> <p>Bydd y trefniadau pontio a gaiff eu darparu ar gyfer disgyblion hefyd ar gael i rieni a gwarcheidwaid hefyd, a bydd</p>   |

|                   |  |  |
|-------------------|--|--|
|                   | <p><i>Rwy'n teimlo y gallai tynnu'r chweched dosbarth yn [Ysgol Gyfun Aberpennar] atal plant rhag aros i'r chweched dosbarth os oes angen iddyn nhw fynd i Ysgol Gymunedol Aberdâr]."</i></p> <p><b>Mae ysgolion yn adnabod eu disgyblion, ac yn aml eu teuluoedd, yn dda, sy'n eu helpu i gynnig cymorth ac arweiniad wedi'i dargedu ôl-16 – gallai hyn gael ei golli.</b></p> <p><i>"Mae ysgolion yn adnabod y disgyblion, ac yn aml eu teuluoedd, yn dda. Mae hyn yn eu helpu i gynnig cymorth ac arweiniad ôl-16 wedi'u targedu'n dda. Mae'n aml yn hawdd i wybodaeth am gryfderau a gwendidau disgybl ddylanwadu ar addysgu a'r cymorth y mae modd i'r ysgol ei gynnig heb fod angen sgrinio ac asesu ar ddechrau dysgu ôl-16."</i></p> | <p>cyfleoedd i rieni/gwarcheidwaid a disgyblion ymweld â'r ysgol cyn i unrhyw newidiadau gael eu rhoi ar waith. Bydd hyn yn helpu'r disgyblion a'u teuluoedd i lywio'r newid ac ymgartrefu'n hapus yn eu hysgol newydd cyn gynted â phosibl.</p> <p>Mae pontio da yn anochel yn golygu rhannu gwybodaeth yn effeithiol am ddisgyblion, eu medrau ac unrhyw anghenion cymorth.</p>  |
| <p><b>14.</b></p> | <p><b>Gallai disgyblion gael mwy o ddewis o bynciau.</b></p> <p><i>"Bydd gan ddisgyblion fynediad at gwricwlwm lefel uwch o hyd."</i></p> <p><i>"Mwy o ddewis i ddisgyblion yn y tymor hir."</i></p>   | <p>Mae gan chweched dosbarth mwy o faint fwy o botensial ar gyfer arbedion maint ac effeithlonrwydd ariannol y mae modd eu cronni a'u hail-fuddsoddi er budd pob disgybl. Mae dosbarthiadau chweched dosbarth mwy o faint hefyd yn galluogi darpariaeth addysg ôl-16 eang a chytbwys i ddisgyblion sy'n bodloni anghenion disgyblion unigol yn well ac felly byddai modd i hyn wella deilliannau disgyblion.</p> <p>Byddai trosglwyddo disgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr yn creu mwy o gyfleoedd rhyngweithio cymdeithasol a allai gael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Gallai hefyd fod mwy o hyblygrwydd i ddisgyblion oherwydd yr amgylchedd addysgol estynedig a gwell ar gyfer dysgu a datblygu. Bydd y profiadau estynedig yma'n paratoi disgyblion yn dda ar gyfer bywyd y tu hwnt i'r ysgol.</p> |
| <p><b>15.</b></p> | <p><b>Gallai dosbarthiadau chweched dosbarth yn Ysgol Gymunedol Aberdâr fod yn rhy fawr.</b></p>   | <p>Mae ysgolion yn derbyn cyllid ôl-16 yn seiliedig ar nifer y disgyblion ôl-16 sydd ar y gofrestr. Os bydd gan Ysgol Gymunedol Aberdâr fwy o ddisgyblion</p>  |

|                   |   |   |
|-------------------|---|---|
|                   | <p><i>“Bydd Ysgol Gymunedol Aberdâr...hefyd yn wynebu dosbarthiadau mwy o faint ar lefel Safon Uwch.”</i></p> <p><i>“Mae’n well gan y mwyafrif o ddisgyblion faint cymharol fach a chynefindra chweched dosbarth eu hysgol [yn Ysgol Gyfun Aberpennar].”</i></p>  | <p>chweched dosbarth, bydd ei chyllid yn cynyddu, a bydd gyda hi ragor o arian i'w wario ar ddarpariaeth ôl-16 a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddarparu ar gyfer pob disgybl. Gallai hyn gynnwys archwilio ystod ehangach o bynciau ôl-16 a gallai olygu o bosibl y byddai mwy o ddewis i ddisgyblion yn ogystal â'r cyfle i ddatblygu mwy o ofal bugeiliol ôl-16.</p> <p>Mae adolygiad thematig Estyn ar <u>'Cyrsgiau safon uwch mewn dosbarthiadau chweched a cholegau addysg bellach'</u> ym mis Tachwedd 2018, yn amlinellu:</p> <p><i>“Mae meintiau dosbarthiadau yn amrywio’n sylweddol ar draws canolfannau, o un i ryw 30 [disgybl]. Mewn dosbarthiadau bach iawn, mae’n anodd cynnal trafodaethau cynhyrchiol ac i ddisgyblion ddysgu oddi wrth ei gilydd.”</i></p> <p>Felly, bydd cael chweched dosbarth mwy o faint o fudd i ddisgyblion, yn helpu i feithrin perthnasoedd, yn darparu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ryngweithio, grwpiau astudio a phrofiad ehangach o rannu gwybodaeth a syniadau. Bydd cyfle hefyd i ddisgyblion 'gyfeillio' gan roi cymorth cyfoedion i'w gilydd gyda mwy o ryngweithio cymdeithasol a lles.</p> |
| <p><b>16.</b></p> | <p><b>Mae dalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yn ddifreintiedig, gallai hyn gael effaith andwyol ar ddisgyblion sydd eisoes dan anfantais.</b></p> <p><i>“Rwy’n meddwl y bydd llawer o blant yn cael eu cymell i beidio â [mynd] ymlaen i addysg [ôl-16] os oes rhaid iddyn nhw newid ysgol. Bydd aelodau tlotach o'r gymuned hyd yn oed yn llai tebygol o barhau â'u haddysg. Bydd plant [sy'n] bryderus neu sy'n dueddol o fod yn nerfus neu'n swil yn cael eu hatal rhag mynychu ysgol arall. Mae hwn yn</i></p> | <p>Caiff yr holl sylwadau mewn perthynas ag amddifadedd eu nodi.</p> <p>Cydnabyddir y bydd angen cymorth ychwanegol ar rai disgyblion a phontio gwell i amgylchedd newydd, ond mae hefyd yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddatblygu a chwrdd â phobl newydd a chael profiadau newydd a fydd yn helpu rhai disgyblion i aeddfedu a dod yn ddisgyblion mwy annibynnol ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau.</p> <p>Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer y cynnig wedi'i lunio yn unol â gofynion <u>Cod Trefniadaeth Ysgolion</u></p>  |

|                   |  |  |
|-------------------|--|--|
|                   | <p><i>bendant yn gam yn ôl...pam fod angen i gymunedau tlotach ddioddef?</i></p> <p><i>“Mae llawer o ardaloedd yn Aberpennar yn cael eu hystyried yn ardaloedd difreintiedig lle mae unigolion yn yr ardaloedd yma'n cael eu hystyried yn llai tebygol o gael mynediad at addysg bellach ac addysg uwch, gan wneud mynediad at chweched dosbarth yn anos yn cynyddu'r tebygolrwydd yma.”</i></p> | <p><u>Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018).</u></p> <p>Mae Adran 3 o'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol y Cyngor mewn perthynas â'r cynnig yma. Caiff yr anfanteision economaidd-gymdeithasol sy'n berthnasol i'r ardal eu rhestru gan ddefnyddio data o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Caiff pob anfantais ei ystyried o fewn cyd-destun y cynnig yma, ac mae effaith y cynnig yma ar bob anfantais wedi'i rhestru, yn fanwl a cheir tystiolaeth ohoni.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, mae'n debygol iawn y bydd gan bob disgybl chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu addysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, a ddylai ddileu un o'r rhwystrau i'r rhai o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd mwy difreintiedig rhag cael mynediad at addysg ôl-16.</p> |
| <p><b>17.</b></p> | <p><b>Mae Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon yn gweithio'n dda, pam ei newid?</b></p> <p><i>“A fydd unrhyw oblygiadau i Gonsortiwm Cwm Cynon wrth symud o dair ysgol i ddwy?”</i></p>  | <p>Pe bai'r cynnig yma'n mynd rhagddo, byddai'n caniatáu i'r Cyngor ddisodli dau chweched dosbarth bach, aneffeithlon gydag un chweched dosbarth cynaliadwy, mwy o faint, a fyddai'n cynnig cwricwlwm ehangach. Byddai hyn yn cael effaith ariannol gadarnhaol ar y ddwy ysgol.</p> <p>Byddai trefniadau Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon yn parhau rhwng Ysgol Gymunedol Aberdâr ac Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru i sicrhau bod disgyblion yn cael mynediad at y dewis ehangaf posibl o gyrsiau. Serch hynny, rhagwelir y byddai'r angen i ddisgyblion deithio rhwng safleoedd yn ystod y diwrnod ysgol yn llawer llai, o ystyried yr ystod eang o gyrsiau a fyddai ar gael ym mhob ysgol.</p>   |



|                   |  |  |
|-------------------|--|--|
| <p><b>18.</b></p> | <p><b>Mae presenoldeb disgyblion y chweched dosbarth yn darparu modelau rôl da i ddisgyblion cyn-16.</b></p> <p><i>“Mae disgyblion y chweched dosbarth yn helpu gyda llawer o rolau allweddol yn rhan o'r Garfan Berffaith sy'n helpu i feithrin [perthynas] gref rhwng staff a holl flynyddoedd yr ysgol.”</i></p> <p><i>“Mae presenoldeb [disgyblion] chweched dosbarth yn darparu modelau rôl da i ddisgyblion cyn-16.”</i></p> | <p>Mae'r Cyngor yn cydnabod y pwynt yma, fodd bynnag, gallai greu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion blwyddyn 11 ymgymryd â'r rôl yma a fyddai o fudd i ddisgyblion iau a hŷn yr ysgol.</p>   |
| <p><b>19.</b></p> | <p><b>Byddai'r cynnig yma'n caniatáu i Ysgol Gyfun Aberpennar ganolbwyntio ar addysgu blynyddoedd 7 i 11.</b></p> <p><i>“Bydd cyllidebau yn cael eu rhyddhau ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar.”</i></p> <p><i>“Rwy'n meddwl y byddai'n fuddiol i ysgolion a disgyblion fel ei gilydd.”</i></p>  | <p>Byddai pob disgybl yn y ddwy ysgol yn elwa o'r cynnig yma gan y byddai'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i sybsideiddio'r ddarpariaeth addysg ôl-16 yn cael eu hailgyfeirio er budd disgyblion 11 i 16 oed sy'n cael mynediad at addysg statudol.</p> <p>Mae'r data a gaiff ei ddarparu yn y Ddogfen Ymgynghori yn dangos bod niferoedd disgyblion chweched dosbarth yn y ddwy ysgol wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf, gyda llai o ddisgyblion blwyddyn 11 yn dewis dychwelyd i'r ddwy ysgol ar gyfer addysg ôl-16.</p> <p>Mae niferoedd isel o ddisgyblion chweched dosbarth yn cyfyngu ar ystod y cyrsiau ôl-16 y mae modd i ysgolion eu cynnig, ac yn aml yn arwain at ddosbarthiadau bach. Nid yw darparu addysg ôl-16 yn y modd yma'n gost-ffeithiol ac yn arwain at ysgolion yn dargyfeirio cyllid a fwriedir ar gyfer addysg disgyblion oedran statudol (blynyddoedd 7 i 11) i ddiwallu'r diffyg o ran darparu addysg ôl-16.</p> |
| <p><b>20.</b></p> | <p><b>Byddai'r cynnig yma'n arwain at ddisgyblion yn treulio llai o amser yn teithio rhwng ysgolion yng Nghonsortiwrm Ôl-16 Cwm Cynon.</b></p> <p><i>“[Byddai] yn atal y gwastraff amser rhwng gwersi gyda [disgyblion] yn gorfod teithio.”</i></p>  | <p>O dan trefniadau presennol Consortiwrm Ôl-16 Cwm Cynon, rhaid i rai disgyblion ôl-16 gael mynediad i'w haddysg ar draws tri safle ysgol sy'n effeithio ar amser astudio gwerthfawr. Mae'n bosibl y gallai'r teithio helaeth sydd ynghlwm wrth astudio cyrsiau ôl-16 mewn mwy nag un safle ysgol fod yn rhwystr i ddisgyblion rhag symud ymlaen i addysg</p>   |

|     |   |  |
|-----|---|--|
|     |   | <p>ôl-16 yn yr ysgol, gan gael effaith andwyol ar gadw disgyblion a symud ymlaen i Addysg Bellach ac Uwch.</p> <p>Yn ogystal â hyn, ar hyn o bryd mae disgyblion yn profi cyfnodau o hunan-astudio gydag ysgolion yn cael diwrnodau HMS gwahanol yn colli'r cyfle ar gyfer dysgu yn yr ysgol.</p> <p>Er y byddai angen i ddisgyblion deithio ymhellach i fynychu'r ysgol ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai llai o deithio rhwng safleoedd yn rhoi mwy o amser i ddisgyblion gymryd rhan mewn dysgu annibynnol a hyrwyddo profiad ôl-16 mwy cadarnhaol gan annog ymdeimlad o berthyn.</p>  |
| 21. | <p><b>A yw'r Awdurdod Lleol yn gwneud unrhyw beth arall i fynd i'r afael â'r materion sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori, megis colli amser astudio, amseroedd teithio a chostau?</b></p>  | <p>Rhagwelir y bydd y cynnig yma'n mynd i'r afael â'r materion a gafodd eu codi ar ôl cau. Bydd cymorth pontio cadarnhaol i ddisgyblion ac aelodau o staff yn sicrhau llwybr dysgu llwyddiannus yn y dyfodol i ddisgyblion gyda chynnig cwricwlwm gwell, llai o amser teithio i bobl ifainc, model ariannol gwell ar gyfer y ddwy ysgol gyda gwell ymgysylltiad â disgyblion a mwy o gyfraddau cadw.</p>   |
| 22. | <p><b>Pa fodelu sydd wedi'i wneud i amcangyfrif yr effaith ar gyllid cyn/ôl-16 Ysgol Gymunedol Aberdâr petai'r cynnig yn mynd rhagddo?</b></p> <p><i>“Byddai'r cynnig yn rhoi cyfle i sefydlu darpariaeth gost-effeithiol, sy'n hyfyw yn ariannol tra'n cynnig cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion [ôl-16].”</i></p> <p><i>“Faint o gyrsiau ychwanegol y rhagwelir y bydd Ysgol Gymunedol Aberdâr yn eu cynnal ac a yw Rhondda Cynon Taf wedi modelu y bydd digon o gyllid?”</i></p> | <p>Ar hyn o bryd cyfanswm y cyllid wedi'i ddyrannu fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar yw £5,709 a'r cyllid wedi'i ddyrannu fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymunedol Aberdâr yw £5,676. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r dyraniad amcangyfrifedig fesul disgybl yn cynyddu yn Ysgol Gyfun Aberpennar i £5,775 ac yn gostwng ychydig i £5,635 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr.</p> <p>Caiff darpariaeth ôl-16 ei hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar y rhaglenni astudio a gaiff eu hymgymryd â nhw gan ddisgyblion. Mae adolygiad wedi'i gynnal o'r rhaglenni astudio a gaiff eu darparu o dan drefniadau presennol Consortiwm Ôl-16 Cwm Cynon. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd Ysgol Gymunedol</p> |

|     |   |   |
|-----|---|---|
|     |   | <p>Aberdâr yn derbyn cynnydd mewn cyllid ôl-16 i adlewyrchu'r niferoedd disgyblion ychwanegol a bydd yn elwa o arbedion maint gan y bydd dosbarthiadau mwy o faint, e.e. cynnydd posibl o 12 i 15 mewn dosbarth hanes sy'n yn lleihau cost fesul disgybl y dosbarth hwnnw. Bydd hyn yn cael effaith ariannol gadarnhaol gan y gellir ailgyfeirio'r arbedion maint ariannol posibl er budd yr ysgol gyfan.</p> <p>Bydd nifer y cyrsiau a gaiff eu cynnig yn cael ei lywio gan y galw gan ddisgyblion, felly ar hyn o bryd, does dim modd mesur nifer y cyrsiau sydd eu hangen.</p>   |
| 23. | <p><b>Pam nad oes modd i'r Cyngor fuddsoddi mwy yn Ysgol Gyfun Aberpennar i'w chodi i'r un safonau ag Ysgol Gymunedol Aberdâr.</b></p> <p><i>“Nid oes gennyf amheuaeth bod [Ysgol Gymunedol] Aberdâr yn gyfleuster rhagorol...ond mae [y chweched dosbarth] yn Ysgol Gyfun Aberpennar hefyd yn gyfleuster gwych a dylid buddsoddi ynddo a'i gadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.”</i></p> <p><i>“Byddai buddsoddiad pellach yn y cyfleusterau yn Ysgol Gyfun Aberpennar i'w chodi i'r safon yn Ysgol Gymunedol Aberdâr yn enghraifft wych o wario arian yn dda.”</i></p> | <p>Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol yn yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf i wella cyfleusterau'r ysgol yn fewnol ac yn allanol. Mae dyletswydd ar y Cyngor i sicrhau bod ei adeiladau'n ddiogel, yn dal dŵr ac yn gynnes. Mae'r Cyngor wedi gwneud hynny, a bydd yn parhau i wneud hynny.</p> <p>Mae Ysgol Gyfun Aberpennar wedi bod yn destun ymweliadau rheolaidd gan Garfan Cynnal a Chadw Eiddo'r Cyngor a'i gontractwyr, ac mae wedi ymweld ag Ysgol Gynradd y Rhigos yn rheolaidd. Mae'r Cyngor hefyd yn cynnal gwiriadau cynnal a chadw cylchol ac arolygon o offer mecanyddol a thrydanol.</p> <p>Mae pob ysgol yn Rhondda Cynon Taf yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth Cynnal a Chadw Adeiladau ac mae gwaith yn cael ei gynnal a'i reoli drwy'r cytundeb yma.</p> |
| 24. | <p><b>Pa adnoddau, os o gwbl, fydd yn cael eu trosglwyddo o Ysgol Gyfun Aberpennar i Ysgol Gymunedol Aberdâr?</b></p>   | <p>Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw adnoddau'n cael eu trosglwyddo. Fel y dywedwyd yn flaenorol, rhagwelir y bydd yr effaith ar Ysgol Gymunedol Aberdâr yn gadarnhaol o ran cynnydd yn nifer y disgyblion, a fydd yn ei dro yn cynyddu'r cyllid a dderbynnir ar gyfer addysg ôl-16 gan ganiatáu i adnoddau ychwanegol gael eu caffael yn ôl yr angen.</p>   |
| 25. | <p><b>A fydd y cynnig yma'n arwain at unrhyw newidiadau i chweched</b></p>  | <p>Nid yw'r ymgynghoriad yma'n cynnig unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth ôl-16</p>  |

|     |   |  |
|-----|---|--|
|     | <b>dosbarth Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru?</b>   | yn Ysgol Uwchradd Sant Ioan Fedyddiwr yr Eglwys yng Nghymru.   |
| 26. | <p><b>Mae gan Ardal Taf-Elái a Chwm Rhondda drefniadau tebyg ar waith i'r hyn sy'n cael ei gynnig eisoes. Pa wersi sydd wedi'u dysgu?</b></p> <p><b>A yw'r trefniadau yma wedi effeithio ar gyrhaeddiad arholiadau?</b></p> | <p>Mae llawer o wersi cadarnhaol wedi'u dysgu o ran disgyblion chweched dosbarth o ysgolion yn ardal Taf-Elái a Chwm Rhondda sydd bellach yn elwa ar ystod lawer ehangach o bynciau ôl-16.</p> <p>Mae cyfathrebu da rhwng ysgolion wedi golygu bod disgyblion yn cael cymorth da. Mae pontio yn ffactor mawr wrth sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi i addasu i'r newid ac mae gofal bugeiliol yn y chweched dosbarth yn bwysig i sicrhau bod disgyblion sy'n trosglwyddo o addysg cyn-16 yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn datblygu ymdeimlad o berthyn i'w darpariaeth addysg ôl-16.</p> <p>Mae'n anodd iawn canfod a gafodd y trefniadau effaith ar gyrhaeddiad. Mae hyn oherwydd yr addasiadau rhesymol sydd wedi'u gwneud ar gyfer TGAU neu gyferwerth, a Lefel A neu arholiadau cyferwerth, dros y pum mlynedd diwethaf oherwydd pandemig COVID-19. Serch hynny, mae bylchau yn y dangosyddion cyflawniad allweddol rhwng cyfartaleddau'r Cyngor a chyfartaleddau Cymru, ar y cyfan yn lleihau.</p> |
| 27. | <b>Mae nifer o sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori yn ymwneud â'r canfyddiad bod gan Ysgol Gymunedol Aberdâr enw negyddol.</b>  | Ni all y Cyngor wneud sylwadau ar farn bersonol a rannwyd yn ystod y broses hon. Mae prosesau ar gyfer codi unrhyw bryderon gydag unrhyw ysgolion yng Nghyngor Rhondda Cynon Taf ac maen nhw y tu hwnt i'r broses statudol yma. Nid yw Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol sy'n peri pryder ac nid yw'n manteisio ar gymorth gwella ysgolion. Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi'r Achos Addysgol dros y cynnig yma. Yn y Ddogfen Ymgynghori, amlinellir gwybodaeth arolygu ddiweddaraf Estyn ar gyfer y ddwy ysgol. Mae Estyn yn ymgynghorai statudol ac ymgynghorwyd ag ef yn rhan o'r broses yma. Mae ymatebion Estyn wedi'u cynnwys yn llawn fel atodiad i'r adroddiad yma, ond yn gryno, roedd Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o  |

|  |  |   |
|--|--|---|
|  |  | wella safon y ddarpariaeth ôl-16 yn yr ardal. |
|--|--|---|

Yn unol â Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ac yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn:

1. Ydych chi o'r farn y gallai'r cynnig effeithio ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg (Cadarnhaol neu Negyddol)?
2. Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
3. Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?

Mae'r tabl dilynol yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd eu derbyn gan yr ymatebwyr a atebodd y cwestiynau. O ganlyniad i'r ymatebion a dderbyniwyd, cafodd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg sy'n dod law yn llaw â'r cynnig ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

| <b>Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad</b>                                |  |                                    |  |                     |
|---|--|------------------------------------|--|---------------------|
| <b>Cwestiynau</b>   | <b>Atebion</b>   |                                    |  |                     |
| Sut byddai'r cynnig/cynigion, yn eich barn chi, yn effeithio ar gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg a'i hyrwyddo | <b>Yn negyddol</b>   | <b>Ddim yn gwybod</b>              | <b>Yn gadarnhaol</b>   | <b>Ddim yn siŵr</b> |
|   | %  |                                    |  |                     |
|   | 46.0%  | 26.0%                              | 5.0%   | 23.0%               |
| Sut byddai modd cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg?                                | <b>Cynyddu Effeithiau Cadarnhaol</b>   | <b>Lleihau Effeithiau Negyddol</b> | <b>Ddim yn siŵr</b>  |                     |
|   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwneud dysgu Cymraeg yn hwyl, addasu'r ffordd y caiff ei haddysgu fel ei bod yn darparu ar gyfer pawb gan nad yw pob disgybl yn dysgu yn yr un ffordd.</li> <li>• Hyrwyddo sgiliau sylfaenol [yn yr iaith Gymraeg] i rieni/gwarcheid waid, neiniau a theidiau, ac ati.</li> </ul> | Dim.                               | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi'r gorau i ganolbwyntio ar y Gymraeg. Nid yw'n cael unrhyw effaith ar y disgyblion sy'n mynychu'r naill ysgol na'r llall.</li> <li>• [Ni fyddai] effaith o gwbl, ond dylid hybu'r Gymraeg.</li> </ul> |                     |
| Ydych chi o'r farn bod y cynnig mewn unrhyw ffordd yn trin y  | <b>Ydw</b>   | <b>Nac ydw</b>                     | <b>Ddim yn gwybod</b>  |                     |
|   | %  |                                    |  |                     |
|   | 36.0%  | 18.0%                              | 46.0%  |                     |

|  |  |  |  |
|--|--|--|--|
| Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? |  |  |  |
|--|--|--|--|

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gyda'r Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw. Felly yn rhan o'r gwaith o geisio barn ar y cynnig, roedd yr ymgynghoriad hefyd yn cynnwys y cwestiwn a ganlyn:

1. Sut byddai'r cynnig yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol:

- Rhyw
- Oedran
- Ethnigrwydd
- Anabledd
- Rhywioldeb
- Crefydd neu gred
- Hunaniaeth rhywedd
- Statws perthynas
- Beichiogrwydd
- Dewis iaith

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn yma, dywedodd y mwyafrif, 60.0%, y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd oedran a dywedodd 51.0% y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd anabledd.

O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y gallai'r cynnig gael effaith negyddol arnyn nhw oherwydd eu hoedran, roedd y rhesymau dros yr effaith negyddol yn cynnwys:

- "Mae gen i ferch, sy'n awyddus i orffen ei haddysg yn Ysgol Gyfun Aberpennar."
- "Rydyn ni'n gofyn i ddisgyblion wneud penderfyniad hyd yn oed yn fwy yn 16 oed. Nid yn unig rydyn ni'n gofyn iddyn nhw ddewis pynciau a fydd yn effeithio ar ddewisiadau bywyd yn y dyfodol, ond byddan nhw'n gwneud y penderfyniad yma ar y lleoliad hefyd."

O'r ymatebwyr hynny a ddywedodd y gallai'r cynnig cael effaith negyddol arnyn nhw oherwydd eu hanabledd, roedd y rhesymau dros yr effaith negyddol yn cynnwys:

- "Mae gan [fy] mhlentyn [ADY], byddai newid ysgol bryd hynny yn amhosib iddi."
- "[Mae gan fy mhlentyn ADY], byddai'n golygu newid trefn a chynefindra'n llwyr a hefyd eu rhoi nhw mewn perygl oherwydd mwy o deithio a bod mewn canol tref brysur gyda phrif ffyrdd a mwy o bobl."
- "Mae gen i awtistiaeth fel llawer o rai eraill sy'n dal i fynychu Ysgol Gyfun Aberpennar. Byddai cau'r chweched dosbarth yn achosi i mi ddod â fy addysg i ben oherwydd fyddai ddim modd i mi ymdopi â'r newid yn yr amgylchedd."

O ganlyniad i'r ymatebion yma, cafodd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n ymwneud â'r cynnig yma'n ei ddiweddarau yn ôl yr angen.

## 6. Ymateb Estyn

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2018 (Ail Argraffiad) (011/2018), mae'r ymateb i'r cynnig gan Estyn wedi'i ddarparu'n llawn yn Atodiad 3. Nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth

Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018) ac nid yw'r Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o wella safon y ddarpariaeth ôl-16 yn yr ardal.

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018), mae'r meysydd ymateb gan Estyn sy'n gofyn am eglurhad wedi'u nodi yn y tabl sy'n dilyn.

| <b>Ymateb Estyn</b>  | <b>Eglurhad</b>  |
|--|--|
| <p><b>Ymateb Estyn</b></p> <p>Ymddengys nad yw'r Cyngor wedi ystyried effaith y penderfyniad yma ar ddarpariaethau 11 i 16 yn ddigon da yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Er enghraifft, efallai y bydd brodyr a chwiorydd yn penderfynu mynd i Ysgol Gymunedol Aberdâr er eu bod yn byw yn ardal Ysgol Gyfun Aberpennar.</p> | <p>Mae'r data yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod digon o le yn Ysgol Gymunedol Aberdâr i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol pe bai rhieni'n gwneud y dewis yma.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae 32 o ddisgyblion yn byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr, ac felly mae hwn eisoes yn ddewis sydd ar gael i rieni a disgyblion yng Nghwm Cynon. Mae dewis ysgol yn ddewis i'r rhiant/gwarcheidwad a chaiff ceisiadau eu hymdrin â nhw yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013 (05/2013).</p> <p>Hefyd i'w nodi, yn dilyn nifer o newidiadau trefniadaeth ysgolion sy'n effeithio ar ddarpariaeth ôl-16 a gafodd ei roi ar waith gan y Cyngor dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, nid oes tystiolaeth i ddangos bod y newidiadau wedi cael effaith negyddol ar niferoedd disgyblion ar yr ysgolion sydd wedi colli eu darpariaeth ôl-16. Yn ogystal â hyn, mae'r data yn y ddogfen ymgynghori yn dangos bod 75% o ddisgyblion ôl-16 ar gofrestr Ysgol Gyfun Aberpennar eisoes yn mynychu Ysgol Gymunedol Aberdâr ar gyfer elfennau o'u dysgu yn rhan o Gonsortiw Cwm Cynon.</p> <p>Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr holl ddisgyblion chweched dosbarth sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gyfun Aberpennar <b>â'r hawl</b> i gael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i fynychu addysg ôl-16 yn Ysgol Gymunedol Aberdâr. Fydd y ddarpariaeth yma ddim ar gael ar gyfer y disgyblion oed ysgol statudol</p> |

|  |   |
|--|---|
|  | <p>hynny sy'n dymuno mynychu ysgolion y tu allan i'r dalgylch.</p> <p>Mae modd i gydweithio gwell ar draws holl feysydd y cwricwlwm rhwng y ddwy ysgol ddechrau datblygu o flwyddyn saith ymlaen, gan ganiatáu i'r ddwy ysgol feithrin agwedd golegol ac ymdeimlad o berthyn ar draws y ddwy gymuned ysgol. Bydd hyn yn cryfhau'r broses o drosglwyddo ystyrion a chadarnhaol gan sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu yn eu lleoliad ysgol newydd heb fawr o darfu ar eu lles a'u haddysg.</p>   |
| <p>Mae'r Cyngor wedi amlinellu manteision ac anfanteision y cynnig yma'n briodol. Mae'r risgiau yma'n cynnwys gostyngiad yn nifer yr aelodau o staff yn Ysgol Gyfun Aberpennar oherwydd nad oes angen rhai rolau mwyach, cynnydd mewn traffig ar y rhwydwaith ffyrdd a'r effaith negyddol ar gymuned Ysgol Gyfun Aberpennar yn sgil dileu'r chweched dosbarth. Er bod y Cyngor wedi cyflwyno mesurau lliniaru addas i'r risgiau yma, nid oes unrhyw wybodaeth ynghylch faint o aelodau o staff y byddai'r newidiadau yma yn effeithio arny'n nhw. Serch hynny, mae'r Cyngor yn ystyried y posibilrwydd o gollu cyflogaeth yn effaith ganolog yn hytrach nag effaith uchel.</p> | <p>Mae'n anodd ymateb yn bendant i faint o aelodau o staff fyddai'n cael eu heffeithio gan y newid yma hyd nes y bydd nifer y disgyblion wedi'u cadarnhau oherwydd y sefyllfa ariannol. Nod y Cyngor yw adleoli staff yn llwyddiannus. Os oes angen cwrs penodol, yna fe allai trefniant posib i gydweithio a rhannu staff o dan drefniant secondiad fod yn opsiwn sy'n cael ei archwilio. Mae hyn i gyd yn dibynnu ar yr hyn y mae'r disgyblion ei eisiau. Bydd atebion creadigol yn cael eu cefnogi ond rydyn ni'n ansicr ar hyn o bryd nes bod gyda ni niferoedd disgyblion terfynol.</p> <p>Mae gan y Cyngor bolisiau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol cadarn a fydd yn rhoi sicrwydd i aelodau o staff a chyflogwyr ynglŷn â rheoli newid sefydliadol.</p> <p>Mae effeithiau sylweddol ar gludiant ar hyn o bryd oherwydd bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn cael mynediad at addysg ar draws mwy nag un safle ysgol. Bydd y cynnig yn caniatáu i ddisgyblion gael eu cludo ddwywaith yn unig yn ystod diwrnod ysgol, i'r ysgol ac yn ôl, a fydd yn lleihau amser astudio a gollir.</p> |
| <p>Mae'r Cyngor wedi nodi y gallai'r cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr erbyn mis Medi 2026 fan bellaf, gael effaith gadarnhaol fawr ar bob un o bum maes arolygu Estyn. Er bod y rhain yn amlinellu'n rhesymol y manteision posibl i Ysgol Gymunedol Aberdâr, nid ydyn nhw'n ystyried yr effaith ar Ysgol Gyfun Aberpennar. Felly, nid ydynt yn darparu safbwynt cytbwys.</p>   | <p>Wedi'i nodi. Cydnabyddir hefyd fod fframwaith arolygu newydd ar gyfer ysgolion bellach.</p> <p>Mae'r Cyngor o'r farn y gallai'r cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr erbyn mis Medi 2026 fan bellaf, gael effaith gadarnhaol fawr ar ystod o feysydd gwella ysgolion yn Ysgol Gyfun Aberpennar, fel y manylir isod:</p>  |



**Safonau (Dysgu) (Addysgu a Dysgu)** – Mae chweched dosbarth bach yn anhyfw yn ariannol a, lle maen nhw'n bodoli, mae adnoddau a fwriedir er budd disgyblion 11 i 16 oed sy'n cael mynediad at addysg statudol yn cael eu hailgyfeirio i sybsideiddio'r ddarpariaeth ôl-16. Mae hyn yn anghynaliadwy ac yn effeithio ar y cynnig addysgol i ddisgyblion iau ac yn cyflwyno heriau cyllidebol sylweddol i ysgolion. Bydd y cynnig yma'n gwella'r darpariaethau 11 i 16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar gan y bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer disgyblion oedran statudol yn cael eu cynyddu o ystyried y gwelliannau i hyfywedd ariannol yr ysgol.

**Lles ac Agweddau at Ddysgu (Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad)** – Bydd y cynnig yma'n gwella'r darpariaethau 11 i 16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar gan y bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer disgyblion oedran statudol yn cael eu cynyddu o ystyried y gwelliannau i hyfywedd ariannol yr ysgol.

**Profiadau Addysgu a Dysgu (Addysgu a Dysgu)** – Mae'r data a gafodd ei ddarparu yn y Ddogfen Ymgynghori yn dangos bod niferoedd disgyblion chweched dosbarth yn y ddwy ysgol wedi gostwng yn sylweddol dros y degawd diwethaf, gyda llai o ddisgyblion blwyddyn 11 yn dewis dychwelyd i'r ddwy ysgol ar gyfer addysg ôl-16.

Mae niferoedd isel o ddisgyblion chweched dosbarth yn cyfyngu ar ystod y cyrsiau ôl-16 y mae modd i ysgolion eu cynnig, ac yn aml yn arwain at ddosbarthiadau bach. Nid yw darparu addysg ôl-16 yn y modd yma yn gost-ffeithiol ac yn arwain at ysgolion yn dargyfeirio cyllid a fwriedir ar gyfer addysg disgyblion oedran statudol (blynnyddoedd 7 i 11) i ddiwallu'r diffyg o ran darparu addysg ôl-16.

**Gofal, Cymorth ac Arweiniad (Lles, Gofal, Cymorth ac Arweiniad)** – rhagwelir y bydd y cynnig yma'n gwella'r ddarpariaeth gofal, cymorth ac arweiniad 11 i 16 yn Ysgol Gyfun Aberpennar gan y bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer disgyblion oedran statudol yn

|  |  |
|--|--|
|  | <p>cynyddu o ganlyniad i'r effaith gadarnhaol ar hyfywedd ariannol yr ysgol.</p> <p><b>Arweinyddiaeth (a Rheoli) (Arwain a Gwella)</b> – Mae'n bwysig bod arweinyddiaeth mewn ysgolion yn cael ei chefnogi gan adnoddau addas i'r diben sy'n briodol ar gyfer addysg yn yr 21<sup>ain</sup> ganrif. Byddai pob disgybl yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn parhau i elwa o ardaloedd sy'n addas ac ysgogol o ran dysgu ac adnoddau ac offer sy'n briodol i amgylchedd dysgu'r 21<sup>ain</sup> ganrif.</p> <p>Bydd y cynnig yma'n gwella'r darpariaethau 11 i 16 yn y ddwy ysgol gan y bydd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer disgyblion oedran statudol yn cynyddu o ystyried y gwelliannau i hyfywedd ariannol y ddwy ddarpariaeth.</p> |
|--|--|

## **7. Asesiad o'r Ymgynghoriad**

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Ail Argraffiad) (011/2018), rydyn ni wedi cynnal asesiad pellach o'r cynnig. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad ar yr un materion a gafodd eu hasesu wrth lunio'r cynnig, yn ogystal â rhoi ystyriaeth i'r ymatebion a dderbyniwyd yn rhan o'r ymgynghoriad.

Ar ôl ystyried y cynnig ymhellach, ac ystyried yn ofalus yr ymatebion a dderbyniwyd i'r cynnig, mae modd cyrraedd y casgliadau isod.

## **8. Casgliad**

Does dim o'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ger bron pawb yn ystod yr ymgynghoriad wedi golygu bod angen newid y Ddogfen Ymgynghori, ac felly mae'r wybodaeth yn y ddogfen yn parhau i fod yr un peth. Felly, argymhelliad yr adroddiad yma yw y dylai Hysbysiad Statudol gael ei gyhoeddi i adlewyrchu'r cynnig yn unol â'r ymgynghoriad heb newidiadau, er mwyn mynd â'r cynnig yma yn ei flaen.